**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

**IS-DDEDDFAU PYSGOTA Â RHWYDI (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) CYMRU 2017**

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 210, a pharagraff 6 o Atodlen 25, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**
Gellir dyfynnu'r is-ddeddfau hyn fel Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017.

**Is-ddeddf 2 – Cymhwysiad**
Bydd yr is-ddeddfau hyn yn cael eu darllen ochr yn ochr ag Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995; Is-ddeddfau Cenedlaethol 1996; Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999; Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 2003; ac Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr (Defnyddio Rhwydi) 2003.

Yng Nghymru, bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r afonydd hynny a'u hisafonydd, pan nodir hyn yn benodol.

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2026.

**Is-ddeddf 3 – Dehongliad**
Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

(a) Bydd “Cyfoeth Naturiol Cymru” yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(b) Bydd "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw yn cael ei fesur ohonynt.

(c) Bydd “pysgota â rhwydi" yn golygu'r rhwydi hynny a ddiffinnir yn fwy penodol yn Is-ddeddf 5(c)(i) – (viii) o Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995.

(ch) Bydd "brithyllod y môr" yn golygu unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a elwir yn aml yn frithyll y

môr neu'n sewin, gan gynnwys brithyllod mudol, ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr.

(e) Heblaw pan fydd yn ofynnol gan y cyd-destun, bydd yr holl eiriau a'r mynegiannau a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu hystyr wedi'u haseinio iddynt gan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad statudol sy'n rhan ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Tymor caeedig blynyddol**

1. Ar gyfer paragraff (a)(i) o Is-ddeddf 3 Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995 (tymor caeedig blynyddol ar gyfer eogiaid a brithyllod mudol – rhwydi a pheiriant sefydlog), amnewidir –

“Y tymor caeedig blynyddol ar gyfer pysgota â rhwydi ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr o Afon Tywi, Afon Taf (Sir Gaerfyrddin), Afon Clwyd, Afon Cleddau, Afon Nyfer, Afon Teifi, Afon Dyfi, Afon Mawddach, Afon Dysynni ac Afon Conwy fydd y cyfnod rhwng y 31ain diwrnod o fis Gorffennaf a'r diwrnod cyntaf o fis Mai.”

2. Mae paragraffau (a)(ii) a (b) o Is-ddeddf 3 Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995 (tymor caeedig blynyddol ar gyfer eogiaid a brithyllod mudol – rhwydi a pheiriant pysgota) wedi'u dirymu.

**Is-ddeddf 5 – Eithriadau i'r tymor caeedig blynyddol**

Ar gyfer paragraffau (2) a (7) i (13) o Is-ddeddf 3 Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999 (tymor caeedig blynyddol ar gyfer pysgota am eogiaid a brithyllod mudol trwy ddulliau heblaw am wialen a lein), amnewidir –

“(2) Y pysgodfeydd rhwydi sân ar Afon Tywi ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(7) Y pysgodfeydd rhwydi sân yn y dyfroedd arfordirol gerllaw gorllewin Cymru, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(8) Y pysgodfeydd rhwydi sân ar Afon Nyfer ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(9) Y pysgodfeydd rhwydi sân ar Afon Teifi ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(10) Y pysgodfeydd rhwydi sân ar Afon Dyfi ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(11) Y pysgodfeydd rhwydi cwrwgl Afon Tywi ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(12) Y pysgodfeydd rhwydi cwrwgl ar Afon Taf (Sir Gaerfyrddin) ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw.

(13) Y pysgodfeydd rhwydi cwrwgl ar Afon Teifi ac aber yr afon, y bydd eu tymor caeedig blynyddol rhwng, a chan gynnwys, y diwrnod cyntaf o fis Awst a'r 30ain diwrnod o'r mis Ebrill canlynol, gan gynnwys y diwrnod hwnnw."

**Is-ddeddf 6 – Dal a rhyddhau gyda rhwydi (eogiaid)**

Ar gyfer Is-ddeddf 4 o Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999 (dal a rhyddhau eogiaid mewn pysgodfeydd rhwydi penodol ar ddechrau'r tymor), amnewidir –

**"Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau gyda rhwydi (eogiaid)**

1. Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, bydd unrhyw berson sy'n mynd ag unrhyw eog, byw neu farw, a gafodd ei bysgota â rhwyd o aber unrhyw afon neu unrhyw ddyfroedd arfordirol yng Nghymru heb awdurdod ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw yn euog o drosedd.

2. Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw berson sy'n cymryd eog yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda chyn lleied â phosibl o anafiadau."